

Canllaw arfer da ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty:

Cyd-gynhyrchwyd gan ofalwyr di-dâl, gweithwyr gofal iechyd
a mudiadau gofalwyr



Mwy am yr adnodd hwn

Anelir yr adnodd Ymwybodol o Ofalwyr hwn at gynllunwyr gwasanaethau byrddau iechyd, gan gynnwys arweinwyr llif cleifion a rhyddhau cleifion o'r ysbyty, a gwneuthurwyr polisi. Bwriedir hefyd iddo fod yn ffynhonnell gwybodaeth ar gyfer staff gofal iechyd a chanddynt rôl arweiniol yn rhyddhau cleifion o'r Ysbyty, megis Nyrsys Cyswllt Rhyddhau a Chydlynwyr Llif Cleifion. Mae'r adnodd hwn yn ategu'r canllaw cysylltiedig ar gyfer staff rheng flaen, 'Involving unpaid carers in hospital discharge: a guide for healthcare staff'. Dylid ei ddarllen gyda Chanllawiau Rhyddhau Cleifion arfaethedig Llywodraeth Cymru, GIG Cymru' [Llwybrau D2RA](#) ac [Isafswm safonau cenedlaethol ar gyfer defnyddio SAFER, RED2GREEN a Rhyddhau i Wella yna Asesu \(D2RA\) i gefnogi'r 6 Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng](#).

Mae'r adnodd hwn wedi elwa o sgysiau o gwmpas y bwrdd a chyfweliadau gyda gofalwyr di-dâl a chanddynt brofiad diweddar o ofalu am rywun yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty, Arweinwyr Gofalwyr byrddau iechyd a gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o broses rhyddhau cleifion o'r ysbyty ar draws Cymru. Cynhwysir dyfyniadau gair am air ac enghreifftiau o arfer a rannwyd yn ystod y broses trwy gydol y ddogfen hon. Ceir hefyd gyfeiriadau at ganllawiau cenedlaethol, polisi ac adnoddau perthnasol sydd ar gael yn barod.

Gan gydnabod fod ein gweithwyr iechyd a gofal yn parhau i weithio dan gryn bwysau, mae'r canllaw hwn yn ceisio hwyluso dull integredig o ryddhau cleifion o'r ysbyty trwy fynd ati o ddifrif i gynnwys gofalwyr di-dâl yn y broses, cymorth gan y trydydd sector, gwasanaethau gofal cymdeithasol statudol ac annibynnol.

Pam yr adnodd hwn

Yn aml daw pobl yn ofalwyr di-dâl am y tro cyntaf pan mae rhywun yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty, neu pan mae eu cyfrifoldebau gofalu yn mynd yn fwy neu'n fwy dwys.

Mae pwysau parhaus ar y gwasanaeth iechyd a gofal ers pandemig Covid-19 wedi golygu fod gofalwyr di-dâl wedi wynebu heriau a gofynion ychwanegol o ran anghenion gofal eu teulu a chyfeillion.

Mae proses rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn adeg anodd i lawer o ofalwyr di-dâl ac mae'n crisialu rhai o'r materion y mae gofalwyr yn eu hwynebu ar draws y system iechyd a gofal ehangach. Bu rhyddhau cleifion o'r ysbyty hefyd yn faes ffocws strategol i'r gwasanaeth iechyd a gwneuthurwyr penderfyniadau fel ei gilydd.

Cynnwys

- Camau i'w cymryd sy'n Ymwybodol o Ofalwyr wrth ryddhau claf o'r ysbyty 4

- Cyd-destun polisi 5

- Llais a rheolaeth: datblygu arfer i gynnwys gofalwyr wrth gynllunio i ryddhau'r claf 8

- Gwaith ataliol a llesiant: datblygu gwasanaethau rhyddhau cleifion sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl 12

Ymwybodol o Ofalwyr

Mae Ymwybodol o Ofalwyr yn brosiect ar y cyd rhwng Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Gofalwyr Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru tan 2025. Mae'n ceisio trawsnewid y gydnabyddiaeth, parch a chefnogaeth i ofalwyr di-dâl yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a grymuso gofalwyr di-dâl i chwarae rhan weithredol mewn penderfyniadau a gwasanaethau ar gyfer y bobl maen nhw'n gofalu amdanynt a'u hunain.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

**YMDDIRIEDOLAETH
GOFALWYR**
CYMRU



 **gofalwyr**
CYMRU



Camau i'w cymryd sy'n Ymwybodol o Ofalwyr wrth ryddhau claf o'r ysbyty

- Dylid cynnwys llais gofalwyr di-dâl mewn cyfarfodydd timau aml-ddisgyblaethol sy'n trafod rhyddhau claf, naill ai'n uniongyrchol neu trwy gael eu cynrychioli gan wasanaeth cefnogi gofalwyr.
- Dylid cynnwys gofalwyr di-dâl sy'n hysbys ymhob Cyfarfod Cynllunio Rhyddhau Claf, a dylid cytuno dyddiad ymlaen llaw.
- Dylai staff clinigol roi gwybod i ofalwyr di-dâl, lle'n briodol, ynghyd â'r claf am gynnydd y claf tuag at gael eu rhyddhau, yn unol â chanllawiau SAFER.
- Dylai fod gan fyrddau iechyd gysylltiadau cadarn gyda gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) rhanbarthol neu leol, a dylai gwybodaeth i ofalwyr di-dâl am ryddhau claf o'r ysbyty a disgwyliadau yn yr ysbyty fod ar gael yn yr ysbyty ac yn y gwasanaeth IAA cymunedol.
- Dylid rhoi manylion y Cynllun Rhyddhau i ofalwyr di-dâl sy'n hysbys, yn ysgrifenedig os yn bosib, gan gynnwys unrhyw ddyddiadau perthnasol o ran cyfarfodydd yr MDT. Lle bynnag y bo modd, dylai hyn gynnwys y dyddiad disgwyliedig ar gyfer neilltuo gweithiwr cymdeithasol i'r claf a, lle'n berthnasol, y gofalydd di-dâl.
- Dylid integreiddio gwasanaethau cefnogi gofalwyr a mudiadau aml-ddisgyblaethol perthnasol o'r trydydd sector yn yr ysbyty a'r hwb cydlynu cymunedol/un pwynt mynediad.
- Dylai gwasanaethau cefnogi gofalwyr arbenigol gael eu hariannu'n gynaliadwy neu eu prif ffrydio fel rhan o gefnogaeth gofleidiol, integredig yr ysbyty a'r gymuned. Gallai hyn gynnwys mudiadau gofalwyr a gomisiynwyd i gynnal asesiadau statudol, lle'n briodol.
- Dylai staff clinigol gynnwys gofalwyr yn sgysiau 'Beth sy'n bwysig imi' y claf wrth gael eu derbyn ac yn rheolaidd wedi hynny.
- Ar ôl cael gwybod am ofalydd di-dâl, dylid cofnodi gwybodaeth berthnasol ar fodiwl gofalydd y cofnod claf electronaidd.
- Dylai fod Cydlynnydd Gofalwyr neu Swyddog Cefnogi Gofalwyr gweledol ymhob lleoliad, a gyflogir gan y bwrdd iechyd neu a gomisiynwyd oddi wrth y trydydd sector, sy'n cael mynediad rheolaidd i wardiau'r ysbyty.
- Dylai'r holl staff clinigol fod yn gyfarwydd â'r broses ar gyfer cyfeirio gofalwyr at y gwasanaeth cefnogi gofalwyr yn y lleoliad.
- Dylid cefnogi staff clinigol sy'n awyddus i weithio gyda gofalwyr i ddod yn Eiriolydd dros Ofalwyr er mwyn hwyluso cydweithio rhwng y gwasanaeth cefnogi gofalwyr a staff y wardiau.



Cyd-destun polisi



“Y nyrsys, allech chi ddim gweld bai ar y nyrsys... Gwraidd y broblem yw'r system. Maen nhw'n cael eu gwthio. Rwy'n gwybod fod ganddon ni broblem – rydyn ni'n clywed hynny bob dydd ar y newyddion – ond mae'r ysbytai'n mynd yn debycach i ffatrioedd: allan â nhw, allan â nhw unwaith mae'r gwaith wedi'i wneud.”

Gofalydd a chanddi brofiad diweddar o ofalu am riant oedd i fod i gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Gofalwyr di-dâl yng Nghymru

Gofalwyr di-dâl yw conglaen ein system iechyd a gofal, ac maent yn cyfrannu gofal gwerth mwy nac £8.1bn bob blwyddyn, fyddai fel arall yn gorfod cael ei ddarparu gan y gweithlu am dâl.

Mae gofalydd di-dâl yn unrhyw un sy'n gofalu, yn ddi-dâl, am gyfaill neu aelod o'r teulu a fyddai oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu gaethineb yn methu ymdopi heb eu cefnogaeth.

Yng Nghyfrifiad 2021, dywedodd 310,000 o bobl yng Nghymru eu bod yn ofalwyr di-dâl. Roedd y Cyfrifiad hwn, a gynhaliwyd yng

nghysgod parhaus pandemig Covid-19, yn cydnabod fod pobl oedd yn ystyried eu hunain yn ofalwyr yn darparu lefel ddwysach o ofalu nac yn y blynyddoedd gynt, ac mae 3.6% o boblogaeth Cymru yn darparu mwy na 50 awr o ofal bob wythnos. O blith y sawl oedd yn ystyried eu hunain yn ofalwyr yng Nghyfrifiad 2021, mae 22,500 yn ofalwyr ifanc neu'n oedolion ifanc dan 25 oed sy'n ofalwyr.

Efallai fod gwir nifer y gofalwyr di-dâl yng Nghymru yn uwch na'r nifer a gofnodwyd yn y Cyfrifiad gan nad yw pawb yn uniaethu â'r term 'gofalydd'. Yn hytrach, mae llawer o bobl yn gweld eu hunain yn ddim mwy nac aelod o'r teulu neu gyfaill.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae gan ofalwyr di-dâl yng Nghymru hawliau cyfreithiol. O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 y diffiniad o ofalydd yw:

“person sy’n darparu neu’n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl”¹

Gall gofalydd fod yn oedolyn, plentyn neu berson ifanc. Mae gan blant hawliau ychwanegol, gan gynnwys o dan yr UNCRC a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a gall fod gan blant a phobl ifanc anghenion gwahanol i gefnogi eu datblygiad i oedolion sy'n ofalwyr.

Mae pobl sy'n gofalu, neu'n bwriadu gofalu am rywun, megis y sawl sy'n cefnogi aelod o'r teulu neu gyfaill sy'n cael eu rhyddhau o'r

ysbyty sydd angen gofal wrth iddynt wella neu'n barhaus, yr hawl i:

- Dderbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Cael eu hasesu os yw'n ymddangos eu bod angen cefnogaeth, ac i gael eu holl anghenion cymwys wedi'u diwallu
- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn glir fod rhaid i berson fod yn “fodlon ac abl” darparu gofal. Mae i ba raddau y mae gofalydd yn gallu darparu gofal ac yn fodlon gwneud hynny yn cael ei asesu fel rhan o'r Asesiad o Anghenion Gofalydd ffurfiol, statudol. Mae'r Ddeddf yn datgan yn glir fod pob gweithiwr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â phobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn gyfrifol am asesiadau cymesur o anghenion gofalydd.
- Lleisio barn ac ymarfer rheolaeth a chwarae rhan lawn mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.
- Gallu manteisio ar eiriolaeth i'w cefnogi i gyfrannu at benderfyniadau.

¹ Social Services and Wellbeing (Wales) Act 2014 [Social Services and Well-being \(Wales\) Act 2014 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)



Cyd-destun polisi Llywodraeth Cymru

Dywedir yng Nghynllun Gweithredu Strategaeth ar gyfer Gofalwyr di-dâl 2021 Llywodraeth Cymru fod cefnogi gofalwyr trwy broses rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn weithred sy'n cyfrannu at helpu gweithwyr proffesiynol i adnabod gofalwyr. Dylai hyn yn ei dro helpu gyda datblygu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gofalwyr.

Er 2016-17 mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £1m i fyrddau iechyd i ddatblygu cymorth i ofalwyr. Mae byrddau iechyd wedi buddsoddi yn neu wedi datblygu eu cefnogaeth i ofalwyr trwy broses rhyddhau cleifion o'r ysbyty, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gofalwyr. Yn 2023-24 caiff cyllid ei neilltuo'n unswydd i wella'r gefnogaeth i ofalwyr di-dâl yn ystod proses rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

Yn fwy cyffredinol, mae buddsoddi mewn cefnogaeth i ofalwyr fel rhan o broses rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn allweddol wrth gefnogi gweithredu dyheadau **'Cymru iachach: y cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol'**. Mae dod â gofal yn agosach i adref a hwyluso symud o leoliadau aciwt i'r gymuned yn dibynnu ar seilwaith ffurfiol y gymuned iechyd a gofal yn ogystal â'r oriau o ofal anweledig yn aml a ddarperir gan ofalwyr di-dâl.

Rhyddhau i Wella yna Asesu, D2RA

Mae D2RA yn cefnogi 6 Nod Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal brys ac argyfwng, gan weithredu ar egwyddor 'Gartref Gyntaf'. Mae'n cydnabod efallai y bydd pobl angen cyfnod 'sefydlogi' neu wella gartref ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty cyn cael asesiad o'u hanghenion gofal parhaus. Mae'n ceisio gweithio mewn ffordd 'beth sy'n bwysig', gan weithio gyda dinasyddion i sicrhau'r deilliannau hirdymor gorau.


Mae'r adnodd Ymwybodol o Ofalwyr hwn yn cyfeirio at arfer a chanllawiau D2RA lle'n

berthnasol gyda'r bwriad o ddarparu trefn gynhwysfawr o ryddhau cleifion o'r ysbyty i dimau rhyddhau o safbwynt ymglymiad gofalwyr di-dâl a'r gefnogaeth a roddir iddynt.

Mae angen defnyddio D2RA ar yr un pryd â chanllawiau SAFER a Choch i Wyrdd.

SAFER a Choch i Wyrdd

Mae SAFER yn anelu at wella llif cleifion a chael y deilliannau clinigol gorau i gleifion trwy gynnwys pobl mewn penderfyniadau a rennir sy'n golygu fod pobl yn mynd yn ôl i'w cartrefi eu hunain cyn gynted ag y mae hynny'n glinigol bosib. Mae gwella llif cleifion a chael y deilliannau clinigol gorau i gleifion yn golygu sicrhau bod cleifion yn cael dyddiau gwerth – dyddiau gwyrdd – lle y maent yn symud at wella a chael eu rhyddhau, ac mae'n nodi dyddiau 'dim gwerth' – dyddiau coch – lle nad yw'r person angen yr ymyriad aciwt a ddarperir iddynt fel claf mewn ysbyty. Mae diwrnod coch yn ddiwrnod lle y byddai'r claf yn elwa o fod yn eu cartref eu hunain neu yn eu preswylfan arferol.





Llais a rheolaeth: datblygu arfer i gynnwys gofalwyr wrth gynllunio i ryddhau'r claf



“Pan mae’n amser rhyddhau’r claf does gennych chi ddim rheolaeth ar hynny o gwbl.”

Gofalydd yr oedd ei gŵr ar fin cael ei ryddhau o’r ysbyty i gartref gofal

Cyfathrebu

“Mae’n fater o gyfathrebu. Rydyn ni’n colli celfyddyd cyfathrebu, gyda’n gilydd ond gyda gofalwyr hefyd.”

Chwaer Ward

“Cyfathrebu” yw un o egwyddorion sylfaenol model D2RA, sy’n tanlinellu fod angen cyfathrebu cynlluniau i bawb perthnasol, gan gynnwys gofalwyr di-dâl, os ydynt yn mynd

i fod yn ystyrllon. Er gwaethaf hyn, dywed gofalwyr di-dâl mai cyfathrebu gyda gweithwyr proffesiynol yw un o’r rhwystrau a’r heriau mwyaf sy’n effeithio ar eu profiad o ofalu am rywun sy’n cael eu rhyddhau o’r ysbyty.

Mae cyfathrebu gonest a thryloyw yn hanfodol. Dylai gweithwyr gofal iechyd gynnig esboniadau llawn o gyflwr person, gan osgoi jargon meddygol, ac o unrhyw dasgau gofal y gallai fod angen iddynt eu gwneud oherwydd cyflwr y person maent yn gofalu amdanynt pan ddaw’r person gartref.

Cynnwys gofalwyr

Dylid grymuso gofalwyr i gyfrannu at ofal parhaus y person maen nhw'n gofalu amdanynt, os mai dyna eu dymuniad. Gall hyn gefnogi staff nyrsio gyda'u capasiti ar y ward. Lle y mae'n bosib a diogel gwneud hynny, gall oriau ymweld agored helpu gofalwyr di-dâl i gynnal eu perthynas ofalu ac esmwytho'r trosglwyddiad o'r ysbyty i'r cartref adeg eu rhyddhau.

Dylid cynnwys gofalydd di-dâl cydnabyddedig yn yr holl drafodaethau sy'n effeithio arny'n nhw.

Yn unol â chanllawiau D2RA, dylai staff clinigol gynnwys y claf a'r gofalydd di-dâl mewn sgysiaid ystyrlon wrth ystyried y pedwar cwestiwn allweddol ar gyfer D2RA mewn trafodaethau cryno. Mae cynnwys y gofalydd yn arbennig o bwysig wrth ystyried cwestiynau 1, 3 a 4.

1. **“A yw'r claf angen unrhyw ofal a chefnogaeth newydd gartref?”
Dyma yw sail y sgwrs ‘Beth sy'n bwysig imi’ gyda'r claf a'u gofalydd di-dâl .**
2. **Pam ddim D2RA?**
3. **A yw'r claf yn gorfforol/wybyddol ddiogel rhwng ymweliadau/dros nos?**
4. **All y claf gymryd rhan ystyrlon mewn ail-sefydlu/ail-alluogi?**

Dywed y canllawiau y dylai hyn gynnwys proses gadarnhaol o rannu penderfyniadau gyda'r gofalydd di-dâl .

Mae hyn yn arwain at gynllun gwirioneddol gyd-gynyrchiedig sy'n fwy tebygol o arwain at broses ryddhau lwyddiannus a chynaliadwy.

Dylai cynnwys y gofalydd di-dâl, lle'n briodol a gyda chydysyniad y person y gofelir amdanynt, gynnwys:

- Asesiad y person y gofelir amdanynt neu sgwrs ‘Beth sy'n bwysig’ adeg eu derbyn ac yn rheolaidd trwy gydol eu harhosiad

- Cyd-gynhyrchu'r cynllun gofal, fydd yn cynnwys Dyddiad Rhyddhau Disgwyliedig, Meini Prawf Clinigol ar gyfer Rhyddhau a'u llwybr D2RA arfaethedig, fel yr amlinellir yn SAFER
- Cyfarfodydd Cynllunio Rhyddhau
- Dim ond trwy ymglymu ac ymgynghori ystyrlon gyda gofalwyr di-dâl y bydd gweithwyr gofal iechyd yn gallu llunio arfarniad manwl-gywir a gonest o beth mae'r gofalydd yn fodlon a gallu ei ddarparu wedi i'r claf gael eu rhyddhau
- Er bod canllawiau D2RA yn briodol iawn yn cydnabod rôl mentro cadarnhaol i gefnogi pobl i fynd yn ôl adref cyn gynted ag y bo modd, dylid cydbwysu hynny gyda sgwrs agored gyda'r gofalydd di-dâl am sut allai'r mentro hwnnw effeithio lefel y gofal y mae disgwyl iddynt ei ddarparu. Mae angen i bob cynllun sy'n cynnwys y gofal a ddarperir gan y gofalydd di-dâl gael eu cyd-gynhyrchu rhwng y claf/unigolyn, meddygon a'r gofalydd. Unwaith eto, mae'n rhaid i ofalydd di-dâl fod yn fodlon ac abl i ddarparu gofal
- Mewn rhai amgylchiadau, cyfarfodydd Tîm Aml-ddisgyblaethol i drafod anghenion gofal y claf wrth edrych ymlaen
- Dywed rhai pobl fod cymryd rhan mewn cyfarfodydd MDT rhithiol, trwy Teams neu Zoom, wedi gwneud i ofalwyr di-dâl deimlo eu bod yn chwarae mwy o ran yn y broses. Os nad yw hyn yn bosib neu'n briodol, gall Swyddog Cefnogi Gofalwyr (neu berson cyfatebol) rannu barn y gofalydd neu eiriol ar eu rhan a hwyluso cyfathrebu am gyflwr y claf ar ôl y cyfarfod. Lle'n berthnasol, gall Asesydd Dibynadwy fod yn rhan o'r MDT, gan arwain at well integreiddio gofal wedi rhyddhau'r claf

“Mae bod yn rhan o'r MDT yn gwneud cymaint o wahaniaeth. Wedyn rydw i'n mynd yn ôl at fy rheuluoedd ac yn ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw.”

Swyddog Cefnogi Gofalwyr yn gweithio mewn ysbyty

Ymwybodol o Ofalwyr

Lle y bo modd, dylid cytuno dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd pwysig, megis y Cyfarfod Cynllunio Rhyddhau, ymlaen llaw gyda'r gofalydd di-dâl. Golyga hynny y gallant drefnu cael amser o'r gwaith neu o gyfrifoldebau gofalu eraill i fynd i'r cyfarfod ac fe gânt gyfle i baratoi ymlaen llaw ar gyfer y cyfarfod.

Mae effaith emosiynol gofalu am rywun yn yr ysbyty yn gallu bod yn llethol. Bydd llawer yn wynebu gorfod derbyn mwy o gyfrifoldebau gofalu wrth i'r person y gofelir amdanynt ddod adref, neu'n gorfod dygymod â gorfod eu trosglwyddo i leoliad gofal newydd megis cartref gofal. Pan nad yw person yn teimlo y gallant, neu am resymau hygyrchedd eu bod yn methu, cyfrannu at y trafodaethau hyn, gallai fod yn briodol trefnu cefnogaeth eiriolydd fel bod llais y gofalydd di-dâl yn cael ei glywed ac er mwyn iddynt gael llais a rheolaeth dros y materion sy'n effeithio arnyh nhw.

Cael gwybodaeth

Mae cael llais ac ymarfer rheolaeth fel gofalydd di-dâl yn dibynnu ar gael gwybodaeth lawn am anghenion y person y gofelir amdanynt wedi eu rhyddhau o'r ysbyty.

Er mwyn cefnogi gofalwyr di-dâl i ymarfer eu hawl i gael gwybodaeth, cyngor a chymorth, dylai gwasanaethau ysbytai ddarparu gwybodaeth glir i ofalwyr di-dâl am yr hyn y gallant ei ddisgwyl yn yr ysbyty ac unwaith y caiff y person maen nhw'n gofalu amdanynt eu rhyddhau. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut i gael gafael ar fwy o wybodaeth, cyngor a chymorth trwy wasanaethau IAA statudol lleol neu ranbarthol am eu hanghenion gofal a'u hawl i ofyn am Asesiad o Anghenion Gofalydd.

Dylid rhoi gwybod i ofalydd di-dâl:

- Pan fydd claf yn cael eu trosglwyddo yn yr ysbyty, megis o un ward i un arall
- Pan gafodd meddyginiaeth neu driniaeth eu newid, sy'n hollbwysig er mwyn sicrhau trosglwyddiad gofal diogel i'r gofalydd adeg rhyddhau'r claf. Lle'n berthnasol, gallai hynny hefyd gynnwys gwybodaeth a chanllawiau i'r gofalydd di-dâl

- Dylid cytuno'r dyddiad ac amser rhyddhau gyda'r gofalydd di-dâl, yn unol â SAFER. Dylai pob meddyg allu trafod ac esbonio'r Dyddiad Rhyddhau Disgwyliedig (EDD) a gwneud hynny mewn ffordd sy'n ddealladwy i'r claf a'r gofalydd di-dâl

- Lle'n briodol, dylid rhoi gwybod i ofalwyr di-dâl gyda'r claf am y cynnydd y mae'r unigolyn yn ei wneud, gan gynnwys:

1. Beth ydych chi'n meddwl sy'n bod arna i? **(Diagnosis)**
2. Beth sy'n mynd i ddiwydd imi heddiw? **(Profion, ymyriadau ac ati)**
3. Beth sydd ei angen er mwyn imi fynd adref? **(Meini Prawf Clinigol ar gyfer Rhyddhau & Chynllun Gwella)**
4. Pryd ydw i'n mynd adref? **(EDD)**

Yn unol â chanllawiau SAFER.

- Dylid cyfathrebu'r Cynllun Rhyddhau yn glir, yn ysgrifenedig os yn bosib, i'r claf a'u gofalydd di-dâl. Er y caiff cynnwys y cynllun gwella ei ddatblygu wedi rhyddhau'r claf, dylai'r Cynllun gynnwys crynodeb clir a:
 - o Chyngor yn y fan a'r lle i gefnogi'r claf
 - o Pa aelod(au) o'r MDT fydd yn yr ymweliad cyntaf gartref, a phryd fydd hwnnw'n digwydd
 - o Rhifau cyswllt ar gyfer ymholiadau
- Lle'n bosib a pherthnasol, y cyfnod ar gyfer dyrannu gweithiwr cymdeithasol i'r person y gofelir amdanynt (fel arfer o fewn 20 diwrnod) i gynnal asesiad o ba ofal parhaus maen nhw ei angen
- Lle'n bosib a pherthnasol, y cyfnod ar gyfer dyrannu gweithiwr cymdeithasol i'r gofalydd di-dâl i gynnal Asesiad o Anghenion Gofalydd os yw'n ymddangos fod angen cefnogaeth ar y gofalydd
- Ar gyfer gofalwyr di-dâl pobl ar ddiwedd oes, y Cynllun Gofal Estynedig
- Cynllun Gwella wedi'i gyd-gynhyrchu, sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd

Ni ddylid defnyddio 'cyfrinachedd' yn rhwystr cyffredinol rhag rhoi gwybodaeth i ofalwyr di-dâl. Mae gan gleifion sy'n oedolion a chanddynt gapasiti yr hawl i benderfynu pwy ddylai gael gwybodaeth am eu cyflwr. Os gofynnir iddynt, bydd y rhan fwyaf o bobl yn cydsynio y gellir rhannu gwybodaeth berthnasol gyda'u gofalydd di-dâl neu aelod o'r teulu. Naill ffordd neu'r llall, mae gan ofalydd di-dâl yr hawl i gael gwybodaeth sy'n effeithio arny'n nhw, gan gynnwys unrhyw ddisgwyliadau neu amgylchiadau am y gofal y gallent ei ddarparu wedi rhyddhau'r claf o'r ysbyty.

Yn unol â 'Mwy na geiriau', dylid cynnig gwybodaeth yn y Gymraeg mewn ffordd ragweithredol lle bynnag y mae hynny'n rhesymol ymarferol. Bydd dangos parch i hunaniaeth ieithyddol person yn cefnogi ymglymiad yn seiliedig ar berthynas o barch.



- Dylid cynnwys llais gofalwyr di-dâl mewn cyfarfodydd timau amlddisgyblaethol sy'n trafod rhyddhau claf, naill ai'n uniongyrchol neu trwy gael eu cynrychioli gan wasanaeth cefnogi gofalwyr.
- Dylid cynnwys gofalwyr di-dâl sy'n hysbys ymhob Cyfarfod Cynllunio Rhyddhau Claf, a dylid cytuno dyddiad ymlaen llaw.
- Dylai staff clinigol roi gwybod i ofalwyr di-dâl, lle'n briodol, ynghyd â'r claf am gynnydd y claf tuag at gael eu rhyddhau, yn unol â chanllawiau SAFER.
- Dylai fod gan fyrddau iechyd gysylltiadau cadarn gyda gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) rhanbarthol neu leol, a dylai gwybodaeth i ofalwyr di-dâl am ryddhau claf o'r ysbyty a disgwyliadau yn yr ysbyty fod ar gael yn yr ysbyty ac yn y gwasanaeth IAA cymunedol.
- Dylid rhoi manylion y Cynllun Rhyddhau i ofalwyr di-dâl sy'n hysbys, yn ysgrifenedig os yn bosib, gan gynnwys unrhyw ddyddiadau perthnasol o ran cyfarfodydd yr MDT. Lle bynnag y bo modd, dylai hyn gynnwys y dyddiad disgwyliedig ar gyfer neilltuo gweithiwr cymdeithasol i'r claf a, lle'n berthnasol, y gofalydd di-dâl.



Gwaith ataliol a llesiant: datblygu gwasanaethau rhyddhau cleifion sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl

Gwasanaethau arbenigol cofleidiol integredig i ofalwyr di-dâl yn pontio o'r ysbyty i'r gymuned

Cefnogaeth arbenigol i ofalwyr di-dâl yn yr ysbyty

Dylai cefnogaeth arbenigol i ofalwyr di-dâl fod ar gael yn yr ysbyty ac yn yr hwb cydlynu gofal cymdeithasol cymunedol lleol/un pwynt mynediad er mwyn pontio'n ddidrafferth o un lleoliad i'r llall.

Mae'n well cysylltu'n gynnar â mudiadau neu wasanaethau gofalwyr fel rhan o drefn ataliol. Mae cael eu cyd-leoli gyda staff yr ysbyty ac asiantaethau eraill ar dir yr ysbyty, megis y Swyddog Cyswllt â Theuluoedd, gweithiwr cymdeithasol a gwasanaethau ataliol eraill yn hwyluso'r atgyfeiriad gan staff clinigol a chyswllt uniongyrchol gan ofalwyr.

Cyn y pandemig roedd gwasanaeth hwylusydd ysbyty arbenigol Cynnal Gofalwyr yn gweithio o Ysbyty Gwynedd, wedi'i gyd-leoli â phartner asiantaethau, Gofal a Thrwsio ac Age Cymru. Mae presenoldeb rheolaidd ar y wardiau yn annog staff y ward i gyfeirio pobl atynt. Roedd cyd-leoli gwasanaethau cymorth yn creu dull partneriaeth o ddiwallu anghenion llesiant a chymorth y gofalydd di-dâl a'r person yr oeddent yn gofalu amdanynt.

Gall cefnogaeth i ofalwyr di-dâl mewn ysbytai gynnwys eiriolaeth ar lefel isel i gefnogi gofalwyr i chwarae rhan ystyrlon mewn asesiadau neu Gyfarfodydd Cynllunio Rhyddhau a gallant weithredu fel, neu gyda'r Swyddog Cyswllt â

Theuluoedd i sicrhau bod y gofalydd di-dâl yn cael gwybod am gyflwr y person.

Mae staff sy'n cefnogi gofalwyr, boed wedi'u comisiynu o'r trydydd sector neu'n rhai a gyflogir gan y bwrdd iechyd, yn dweud fod cael presenoldeb a bod yn weledol ar wardiau yn gwella atgyfeiriadau ac yn galluogi mwy o ofalwyr di-dâl i gael y gefnogaeth maen nhw ei hangen. Soniant am drefn ragweithiol a pharhaus o godi ymwybyddiaeth o'u gwasanaeth ymhlith staff clinigol a'i wneud yn fwy gweledol.

“Rydyn ni'n falch fod person yna ar gyfer gofalwyr di-dâl y gall staff droi atynt. Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn y trydydd sector. Rydyn ni'n gofalu fod pobl yn gwybod amdanon ni a sut i gysylltu â ni.”

Arweinydd gofalwyr bwrdd iechyd

Cymorth gofalwyr di-dâl fel rhan o seilwaith cefnogaeth y gymuned leol

Mae gwasanaethau rhyddhau cynaledig a chynaliadwy, fel y rhagwelir o dan D2RA a SAFER, yn dibynnu ar gael seilwaith cadarn yn y gymuned i ddarparu'r gefnogaeth gofleidiol sydd ei hangen ar y person y gofelir amdanynt wedi iddynt fynd adref. Dylai hyn gynnwys cefnogaeth arbenigol i ofalwyr di-dâl fel rhan o dîm aml-ddisgyblaethol sy'n cynnig cymhorthion ac addasiadau i'r cartref, eiriolaeth, gwaith cymdeithasol ac ail-alluogi.

Mae cyllid cynaliadwy ar gyfer cefnogaeth gymunedol yn hanfodol er mwyn hwyluso llif cleifion yn yr hirdymor. Heb gefnogaeth ddibynadwy a sefydlog yn y gymuned, mae rhyddhau aflwyddiannus yn anochel.

Gweithio'n integredig

Mae cefnogaeth gofleidiol ddi-dor o'r ysbyty i'r gymuned yn galw am ffordd integredig o weithio. Mae canllawiau SAFER yn amlygu pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol rhwng timau wardiau a'r gymuned er mwyn ceisio rhyddhau'r

claf yn gynnar. Mae sgysiau cynnar gyda'r tîm adnoddau cymunedol neu debyg (meddyg teulu, nyrs ardal a gweithiwr cymdeithasol) yn hybu rhyddhau cynharach, gydag adolygiad i ddilyn yn y cartref, yn unol â model D2RA.

Gall cyfathrebu integredig, effeithiol gynnwys rhannu data er mwyn creu ffordd system-gyfan o weithio. Mae Llywodraeth Cymru yn bendant y gellir rhannu data at ddibenion darparu gwasanaethau iechyd a gofal. Bydd hyn yn cynnwys rhannu data gofalydd di-dâl at ddibenion cyfeirio'r claf ymlaen lle mae'r gofalydd wedi cydsynio i hynny. Mantais hyn yw hwyluso'r trosglwyddiad o'r ysbyty i'r gymuned.

“Dydy pobl ddim yn gwybod â phwy ddylen nhw siarad. Unwaith yr ydych allan o'r ysbyty, mae'n golygu pobl yn y gymuned, nid yn yr ysbyty. Mae'n creu dryswch i bobl.”

Rheolydd Ward

Mae defnyddio model Asesydd Dibynadwy yn galluogi un asiantaeth i gynnal asesiadau ar ran un arall. Mae llawer o fudiadau gofalwyr yn cynnal Asesiadau o Anghenion Gofalwyr ar ran yr awdurdod lleol mewn partneriaeth gyda'u cydweithwyr gofal cymdeithasol yn y sector statudol. Mae gweithio'n integredig yn cefnogi capasiti yn y sector iechyd a gofal ac mae'n cyfyngu nifer yr asiantaethau y cyfeirir gofalwyr di-dâl atynt.

Comisiynwyd Canolfan Gofalwyr Abertawe gan Gyngor Abertawe i dreialu cynnal cyfran o Asesiadau o Anghenion Gofalwyr yn yr awdurdod lleol. Trwy gomisiynu'r un darparwydd sy'n darparu gofal ysbyty i ofalwyr yn yr ardal i gynnal Asesiadau o Anghenion Gofalwyr, mae gofalwyr yn yr ardal yn cael cefnogaeth gyson ar adeg pan allent fod yn arbennig o fregus.

- Dylid integreiddio gwasanaethau cefnogi gofalwyr a mudiadau aml-ddisgyblaethol perthnasol o'r trydydd sector yn yr ysbyty a'r hwb cydlynu cymunedol/un pwynt mynediad.
- Dylai gwasanaethau cefnogi gofalwyr arbenigol gael eu hariannu'n gynaliadwy neu eu prif ffrydio fel rhan o gefnogaeth gofleidiol, integredig yr ysbyty a'r gymuned. Gallai hyn gynnwys mudiadau gofalwyr a gomisiynwyd i gynnal asesiadau statudol, lle'n briodol.

Adnabod gofalwyr di-dâl wrth dderbyn claf i'r ysbyty

Mae cynllunio rhyddhau claf o'r ysbyty yn dechrau pan gaiff y claf eu hasesu wrth gael eu derbyn i'r ysbyty.

Mae barn broffesiynol yn agwedd hollbwysig o'r asesiad ond mae Canllawiau D2RA yn dweud fod sgysiau 'beth sy'n bwysig imi' yn debygol iawn o gynnwys mwy na'r rheolaeth feddygol ar gyflwr person. Byddant yn aml yn cynnwys manylion ynghylch llesiant ac ansawdd bywyd ddylai gael eu cyd-gynhyrchu rhwng staff clinigol, y person sydd angen gofal a'r gofalydd di-dâl, all fod yn arbenigwr ar ofal y person hwnnw. Heb ymglymiad y gofalydd di-dâl, gellid colli gwybodaeth hollbwysig am anghenion ac amgylchiadau'r person.

“Rydyn ni'n sôn yn aml am angen meddygol person – bod yn feddygol ffit – ond mae gofalwyr yn darparu cymaint mwy na hynny”

Rheolydd Ward

Mae canllawiau ar D2RA yn nodi fod casglu gwybodaeth fel rhan o'r broses asesu gychwynnol yn cynnwys sgysiau cynnar

gyda darparwyr gofal er mwyn lleihau'r perygl o ddatgyflyru a chynllunio ar gyfer rhyddhau. Bydd hyn yn cynnwys darparwyr gofal trigiannol a darparwyr cartrefi gofal, lle'n berthnasol. Dylai hefyd gynnwys unrhyw ofalwyr di-dâl sy'n rhan o ddarparu gofal ar gyfer yr unigolyn.

Pan ddeuir ar draws gofalydd di-dâl, dylid cofnodi eu manylion (gyda'u cydsyniad) er mwyn hwyluso ymglymiad y gofalydd hwnnw trwy gydol cyfnod y claf yn yr ysbyty. Pan ddarparwyd hyfforddiant, dylai staff clinigol gofnodi gwybodaeth y gofalydd di-dâl ar fodiwl gofalydd newydd y cofnod claf electronaidd.

- Dylai staff clinigol gynnwys gofalwyr yn sgysiau 'Beth sy'n bwysig imi' y claf wrth gael eu derbyn ac yn rheolaidd wedi hynny.
- Ar ôl cael gwybod am ofalydd di-dâl, dylid cofnodi gwybodaeth berthnasol ar fodiwl gofalydd y cofnod claf electronaidd.

Cyfeirio pobl at fwy o gefnogaeth

“Mae cael eich cefnogi a chael eich cynnwys yn ddau beth gwahanol. O safbwynt y ward, rydyn ni'n gyfrifol am y claf... Nid yw cynnwys rhywun yn golygu o reidwydd eu bod yn cael y gefnogaeth maen nhw ei hangen.”

Nyrs arweiniol

Er y dylai pob aelod o staff sy'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion o'r ysbyty fod yn gyfarwydd ag ethos Ymwybodol o Ofalwyr ac ymwneud â gofalwyr di-dâl trwy gymhwyso'r egwyddorion cyffredinol er mwyn galluogi ymglymiad trwy lais a rheolaeth, mae staff clinigol yn deall mai eu prif gyfrifoldeb yw sicrhau bod y claf yn feddygol ffit i gael eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.



Dylid cael llwybr blaengyfeirio clir fel y gall staff clinigol gyfeirio gofalwyr di-dâl at gefnogaeth arbenigol ar gyfer gofalwyr yn yr ysbyty, wedi eu hadnabod a'u cofnodi ar y cofnod electronaidd. Rhaid i staff clinigol wybod sut i wneud blaengyfeiriadau a dylai'r broses hon fod yn syml a dealladwy. Bydd hyn yn rhoi hyder i staff clinigol fod adnabod gofalydd di-dâl yn arwain at y gefnogaeth mae'r gofalydd ei hangen.

Yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yng Nghwm Taf Morgannwg, mae'r Cydlynnydd Gofalwyr i'w gweld ar y wardiau fel bod staff nyrsio yn gwybod at bwy i droi pan maen nhw'n gweld gofalydd di-dâl sydd angen cefnogaeth. Cafodd ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth i ofalwyr, a sut i gael gafael arni, ei hyrwyddo trwy negeseuon ar y fewnrwyd ac mewn digwyddiadau yn yr ysbyty.

“Yn hytrach nac aros i nyrsys wneud atgyfeiriadau, rydw i'n mynd i chwilio am atgyfeiriadau. Fe awn ni atyn nhw yn hytrach na nhw'n dod atom ni. Allwn ni ddim gofyn mwy gan ein nyrsys ar hyn o bryd.”

Cydlynnydd Gofalwyr Bwrdd Iechyd

Wrth i staff nyrsio a chlinigol barhau i wynebu pwysau o fewn y system dylid annog Swyddogion Gofalwyr, Cydlynwyr Gofalwyr, Hwyluswyr Gofal Eilaidd i staff wardiau i ddefnyddio agwedd ragweithiol. Dylai rheolwyr wardiau annog gwasanaethau cefnogi gofalwyr i drefnu presenoldeb rheolaidd ar y wardiau. Mae hynny'n hwyluso blaengyfeiriadau gan nyrsys nad oes ganddynt o reidrwydd y capasiti i gynnal proses atgyfeirio lawn.

Unwaith y mae gofalydd di-dâl yn hysbys i'r gwasanaeth cefnogi gofalwyr, gall y gwasanaeth hwnnw gynnal sgwrs 'Beth sy'n bwysig imi' er mwyn asesu'r gefnogaeth allai fod ei hangen arnynt, boed hynny'n wasanaethau ataliol yn y gymuned, at IAA neu atgyfeiriad ar gyfer Aseiad o Anghenion Gofalydd statudol.

Ymwybodol o Ofalwyr

Dylai'r gwasanaethau cefnogi gofalwyr weithio'n agos â thîm gweithwyr cymdeithasol yr ysbyty i hwyluso atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau statudol a chydlynu anghenion asesiadau o ofal ar gyfer y person y gofelir amdanynt cyn eu rhyddhau lle y mae hynny'n briodol.

Mae'n debyg y bydd bylchau arwyddocaol trwy gydol pob wythnos pan nad yw'r Swyddog Gofalwyr yn bresennol ar bob ward. Gall Eiriolwyr Gofalwyr - staff clinigol a chanddynt ddiddordeb arbennig mewn gofalwyr neu sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth gofalwyr ychwanegol - gefnogi eu cydweithwyr ar y ward i gyfeirio gofalwyr di-dâl at ddarpariaeth arbenigol ar adegau pan nad yw'r Swyddog Gofalwyr yn bresennol neu ar gael. Byddant yn eiriol dros gefnogaeth i ofalwyr, byddant yn gyswllt uniongyrchol â Swyddog Gofalwyr yr ysbyty ac yn darparu cefnogaeth gyson i gydweithwyr ynghylch gofal gofalwyr.

Pan mae gwasanaeth cefnogi gofalwyr yr ysbyty yn cael ei ddarparu gan y bwrdd iechyd, dylid gwneud cysylltiadau ac adeiladu partneriaethau gyda gwasanaethau ataliol gan y trydydd sector all ddarparu cefnogaeth gofleidiol i'r gofalydd yn y gymuned wedi i'r person y maen nhw'n gofalu amdanynt gael eu rhyddhau.

- Dylai fod Cydlynnydd Gofalwyr neu Swyddog Cefnogi Gofalwyr gweledol ymhob lleoliad, a gyflogir gan y bwrdd iechyd neu a gomisiynwyd oddi wrth y trydydd sector, sy'n cael mynediad rheolaidd i wardiau'r Ysbyty.
- Dylai'r holl staff clinigol fod yn gyfarwydd â'r broses ar gyfer cyfeirio gofalwyr at y gwasanaeth cefnogi gofalwyr yn y lleoliad.
- Dylid cefnogi staff clinigol sy'n awyddus i weithio gyda gofalwyr gael eu cefnogi i ddod yn Eiriolydd dros Ofalwyr er mwyn hwyluso cydweithio rhwng y gwasanaeth cefnogi gofalwyr a staff y wardiau.



Diolchiadau

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn ddiolchgar i'r gofalwyr di-dâl o bob rhan o Gymru a rannodd eu profiadau â ni ar gyfer llunio'r adnodd hwn.

Hoffem ddiolch hefyd i Ganolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr am drefnu cyfle i ofalwyr ddod at ei gilydd i drafod rhyddhau cleifion o'r ysbyty, i Arweinwyr Gofalwyr Byrddau Iechyd am eu harweiniad, ac i'r staff ar draws y gwasanaeth iechyd a gofal sy'n rhan o ryddhau cleifion o'r ysbyty a roddodd eu hamser wrth inni baratoi'r adnodd hwn.

Cyfeiriadau a chyhoeddiadau cysylltiedig

Ymwybodol o Ofalwyr/Gofalwyr Cymru (2021) Egwyddorion ac awgrymiadau arfer da ar gyfer gweithwyr cymdeithasol: cyd-gynhyrchwyd gan weithwyr cymdeithasol a gofalwyr [Egwyddorion ac Awgrymiadau Arfer Da ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol fin.pdf \(carersuk.org\)](#)

Adnoddau prosiect Ymwybodol o Ofalwyr [Adnoddau Ymwybodol o Ofalwyr ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol| Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru](#)

GIG Cymru (2022a), SAFER, Coch i Wyrdd: Isafswm safonau cenedlaethol ar gyfer defnyddio SAFER, RED2GREEN a Rhyddhau i Wella yna Asesu (D2RA) i gefnogi'r 6 Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng, Cymru: <https://gofalsylfaenolun.gig.cymru/offer/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-a-gofal-mewn-argyfwng/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-a-gofal-mewn-argyfwng/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-a-gofal-mewn-argyfwng/safer-report-cympdf/>

GIG Cymru (2022b): Llwybrau D2RA [https://gofalsylfaenolun.gig.cymru/offer/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-a-gofal-mewn-argyfwng/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-a-gofal-mewn-argyfwng/d2ra-report-cympdf/](https://gofalsylfaenolun.gig.cymru/offer/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-a-gofal-mewn-argyfwng/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-a-gofal-mewn-argyfwng/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-a-gofal-mewn-argyfwng/d2ra-report-cympdf/)

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 \(legislation.gov.uk\)](#)

Llywodraeth Cymru (2019) Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol [Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | GOV.WALES](#)

Llywodraeth Cymru (2021) Strategaeth ar gyfer Gofalwyr di-dâl [Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl| GOV.WALES](#)

Llywodraeth Cymru (2021) Cynllun Cyflawni Strategaeth ar gyfer Gofalwyr di-dâl 2021 [Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl : cynllun cyflawni 2021 | GOV.WALES](#)

[Llywodraeth Cymru \(2022\) Chwe nod ar gyfer gofal brys ac argyfwng: llawlyfr polisi ar gyfer 2021 i 2026 | GOV.WALES <https://www.gov.wales/six-goals-urgent-and-emergency-care-policy-handbook-2021-2026>](#)

YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR CYMRU

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn rhan o Carers Trust, sef elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1145181) ac yn yr Alban (SC042870).

Mae wedi'i gofrestru fel cwmni cyfyngedig drwy warant yng Nghymru a Lloegr Rhif 7697170.

Swyddfa gofrestredig: Carers Trust, 10 Regent Place, Rugby, CV21 2PN.



Mae Carers Cymru yn rhan o Carers UK, elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (246329) ac yn yr Alban (SC039307), ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (864097).

Swyddfa gofrestredig: Carers UK, 20 Great Dover Street, Llundain SE1 4LX.

Mae © Ymwybodol o Ofalwyr yn brosiect partneriaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a arweinir gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Gofalwyr Cymru.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government